

Monmouthshire Select Committee Minutes

Meeting of Pwyllgor Craffu Pobl held at Council Chamber, County Hall, The Rhadyr USK on Dydd Mawrth, 4ydd Mawrth, 2025 at 10.00 am

Councillors Present

County Councillor Laura Wright (Chair)
County Councillor (Vice Chair)

County Councillors: Jan Butler,
Christopher Edwards, Simon Howarth,
Penny Jones, Maureen Powell, Jackie Strong,
Jill Bond, Tony Easson, and Peter Strong

Also in attendance County Councillors:
Paul Griffiths,
Mary Ann Brocklesby

Officers in Attendance

Hazel Ilett, Rheolwyr Craffu
Robert McGowan, Swyddog Polisi a Chraffu
Peter Davies, Prif Swyddog, Adnoddau
Will Mclean, Prif Swyddog Plant a Phobl Ifanc
Hannah Jones, Pennaeth yr Economi, Cyflogaeth a Sgiliau

APOLOGIES: Councillors Maria Stevens

1. Datganiadau o Fuddiant

Datganodd y Cynghorydd Jackie Strong a'r Cynghorydd Tony Easson fuddiant personol ond di-ragfarn, gan eu bod yn hwyluso grŵp ar ddydd Gwener yng Nghil-y-coed, ond dywedasant nad oes ganddynt unrhyw berthynas na chyfeillgarwch ag unrhyw un o Together Works. Datganodd y Cynghorydd Jill Bond fuddiant personol ond di-ragfarn fel ffrind a chefnogwr hirdymor i Together Works. Datganodd y Cynghorydd Jan Butler fuddiant personol ond di-ragfarn, gan ei bod yn Aelod o ganolfan gymunedol yn Goytre a oedd wedi derbyn rhywfaint o Gyllid Ffyniant a Rennir.

2. Galw i Mewn penderfyniad y Cabinet ar 19eg Chwefror 2025 ynghylch Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU 2025/26

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Gofynnodd i'r Rheolwr Craffu egluro'n fyr y broses galw i mewn a fyddai'n cael ei dilyn yn y cyfarfod, yn unol â Chyfansoddiad y Cyngor. Cynghorodd y Rheolwr Craffu fod y cyfarfod wedi'i drefnu i drafod penderfyniad a wnaed ond nad oedd wedi dod i rym ynghylch Dyraniad Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU 2025-2026.

Cynghorwyd ar 19eg Chwefror 2025, bod y Cabinet wedi ystyried adroddiad a'u hysbysodd am estyniad blwyddyn Llywodraeth y DU i Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU (UKSPF) ac wedi ceisio cymeradwyaeth i roi buddsoddiad gan UKSPF ar gyfer 2025/26 i brosiectau a restrir yn Atodiad un o adroddiad y Cabinet. Mae adroddiad penderfyniad y Cabinet yn rhoi cyd-destun llawn o'r materion allweddol sy'n ymwneud â'r penderfyniad a wnaed ar 19 Chwefror 2025, a amlinellir yn adran 3 ynghyd ag asesiad opsiynau a ddarperir o dan adran 5, a geir drwy Agenda ar gyfer y Cabinet ddydd Mercher, 19eg Chwefror, 2025, 4.30 pm – Cyngor Modern.

I roi cyd-destun, y penderfyniad a wnaed gan y Cabinet ar 19eg Chwefror 2025 oedd derbyn yr argymhellion canlynol:

Mae'r Cabinet:

- a. Yn cymeradwyo argymhellion Partneriaeth Pobl a Lle Sir Fynwy mewn perthynas â buddsoddi arian o ddyraniad yr Awdurdod Lleol ar gyfer 2025/26.
 - c. Yn cymeradwyo'r cynllun buddsoddi lleol drafft (atodiad un) a'r prosiectau sydd ynddo.
 - d. Yn awdurdodi cychwyn gweithgaredd fel yr amlinellir yn y cynllun buddsoddi lleol drafft o 1af Ebrill 2025, cyn i'r Awdurdod Lleol arweiniol rhanbarthol (CBS Rhondda Cynon Taf) dderbyn Memorandwm Cydddealltwriaeth wedi'i ddiweddarau gan Lywodraeth y DU.

Gofynnodd y Cadeirydd i'r Aelodau a oedd wedi galw'r penderfyniad i mewn gyflwyno eu rhesymau dros alw'r penderfyniad i mewn, fel a ganlyn:

- Craffu, tryloywder ac atebolrwydd annigonol o ran sut mae prosiectau'n cael eu hadnabod a'u gwerthuso a'r broses a'r meini prawf y mae penderfyniadau'n cael eu gwneud yn eu herbyn. Dim asesiad amlwg o wireddu manteision, fel y'u diffinnir ym mhob cynnig prosiect cychwynol a lle mae prosiectau o fewn eu cylch bywyd.
- Ychydig o asesiad gweladwy o'r effaith ac ystyriaeth o liniaru ar gyfer prosiectau sy'n cael eu rhoi i ben yn yr Asesiad Effaith Integredig, neu mewn mannau eraill.

Amlinellodd yr Aelodau Galw i Mewn eu rhesymau dros alw'r penderfyniad i mewn (fel uchod) a gwnaethant y pwyntiau ychwanegol canlynol:

Cynghorydd Bond:

- Pwysleisiodd bwysigrwydd prosesau'r Cyngor i sicrhau penderfyniadau cywir, cadarn a thryloyw ar gyfer dyrannu arian cyhoeddus drwy graffu.
- Tynnodd sylw at y prosiect "Gyda'n Gilydd yn Gweithio" fel enghraifft o brosiect cymunedol gwerthfawr yng Nghil-y-Coed.

Cynghorydd Easson:

- Mynegodd y Cynghorydd Easson ei fod yn teimlo y dylai'r mater fod wedi cael ei graffu'n gynharach yn hytrach na'i drin drwy ei alw i mewn.
- Soniodd y Cynghorydd Easson am ei bryder ynghylch peidio â gallu trafod gwybodaeth gefndirol nad oedd yn y parh cyhoeddus yr oedd yn teimlo ei bod yn berthnasol i'r penderfyniad.

Cynghorydd Howarth:

- Teimlai'r Cynghorydd Howarth fod diffyg tryloywder ynghylch y broses ymgeisio am y Gronfa Ffyniant Gyffredina chraffu annigonol yn gyffredinol.

- Pwysleisiodd yr angen am hyfywedd hirdymor ac achosion busnes ar gyfer prosiectau a ariennir gan grantiau, gan dynnu sylw at fater cynaliadwyedd pan ddaw cyllid grant i ben.
- Galwodd y Cynghorydd Howarth am well cyfathrebu a chynnwys Aelodau mewn prosesau gwneud penderfyniadau, yn enwedig ar gyfer penderfyniadau ariannu arwyddocaol.

Ymateb gan yr Aelod Cabinet:

Gofynnodd y Cadeirydd i'r Aelod Cabinet, y Cynghorydd Paul Griffiths, ymateb. Ymatebodd yr Aelod Cabinet drwy:

- Cydnabod rôl y Pwyllgor craffu wrth ystyried y broses gwneud penderfyniadau ar gyfer y Gronfa Ffyniant Gyffredina phwysleisio'r angen am graffu, tryloywder ac atebolrwydd.
- Esbonio bod y gronfa wedi'i sefydlu yn 2022 fel olynydd Llywodraeth y DU i gronfeydd strwythurol yr UE, gyda'r bwriad o ganoli rheolaeth a chyfyngu ar rôl gweinyddiaethau datganoledig ac awdurdodau lleol.
- Tynnu sylw at y brys wrth wneud penderfyniadau oherwydd y newid o gronfeydd yr UE i'r Gronfa Ffyniant a Rennir, a arweiniodd at ymgysylltiad cyfyngedig â chymunedau a ffocws ar symud rhaglenni blaenorol ymlaen.
- Manylu ar y broses o gyflwyno achosion busnes ar gyfer cyllid, y toriad sylweddol mewn cyllid (46%) a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2022, a'r angen dilynol am wneud penderfyniadau cyflym gan y bwrdd partneriaeth.
- Awgrymu bod diffyg mecanwaith clir ar gyfer atebolrwydd i'r Cyngor, gan fod y bwrdd partneriaeth yn atebol i Swyddogion Llywodraeth leol yn RhCT a gweision sifil Llywodraeth y DU.
- Yn cyngori ei fod yn teimlo bod y trefniadau Llywodraethu presennol yn rhy ganolog, yn fiwrocrataidd, ac yn brin o graffu a chyfrifoldeb lleol effeithiol ac yn awgrymu y gallai'r Pwyllgor craffu fod eisiau ystyried trephined newydd a gwell ar gyfer cyllid yn y dyfodol, gan ymgysylltu â Llywodraeth Cymru i greu prosesau mwy tryloyw ac atebol.

Pwyntiau allweddol a godwyd gan Aelodau'r Pwyllgor ac Aelodau a oedd yn ymweld:

Atebodd yr Aelod Cabinet Paul Griffiths, y Prif Swyddog Will McLean a Hannah Jones gwestiynau'r Aelodau:

- Gofynnodd Aelod am sicrwydd ynghylch a yw'r prosiectau presennol yn dal i fod angen cyllid ac a ellid gwario'r arian yn well mewn mannau eraill o fewn y penawdau cyllido ffyniant a neilltuwyd. Mynegodd bryder ynghylch dosbarthiad cyllid ar draws Sir Fynwy ac a yw'n cael ei ddyrannu i'r ardaloedd mwyaf priodol. Holiodd am y gwaith a wnaed i asesu effaith ac angenrheidrwydd y prosiectau a ariennir ar hyn o bryd ers i'r llif cyllido ddechrau. Cwestiynodd rôl Rhondda Cynon Taf (RCT) fel y partner arweiniol ar gyfer cyflawni'r cynllun cyffredinol a faint o ddylanwad sydd gan RCT dros ddyrannu cyllid i rai mathau o brosiectau.

Esboniodd yr Aelod Cabinet fod Rhondda Cynon Taf (RCT) yn cyflawni rôl weinyddol, gan wirio bod y wybodaeth ofynnol yn cael ei darparu a'i hanfon ymlaen at lywodraeth y DU heb wneud barn wleidyddol ar y dyraniadau. Cydnabu fod y broses wedi'i chyfyngu gan amser, gan gyfyngu ar y gallu i sganio'n eang am brosiectau newydd. Fodd bynnag, mynegodd hyder bod y gwaith gorau posibl wedi'i wneud o fewn y cyfyngiadau hyn. Ailadroddodd y Prif Swyddog mai rôl RCT yw dal y darn ar gyfer y 10 Awdurdod Lleol a rhyngwynebu â Llywodraeth ganolog y DU, gan sicrhau bod achosion busnes yn cael eu llunio a'u gwirio'n gadarnhaol. Pwysleisiodd fod yr amserlen ar gyfer penderfyniadau wedi'i chyfyngu'n ddifrifol oherwydd yr estyniad o flwyddyn, ond roedd yn rhannu hyder bod y penderfyniadau cywir wedi'u gwneud trwy broses y Cabinet.

- Crynhodd Aelod gyd-destun Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU, gan nodi'r newidiadau mewn ffynonellau ariannu oherwydd tynnu'r gronfa Ewropeaidd yn ôl a chyfranogiad Llywodraethau Cymru a San Steffan. Mynegodd ansicrwydd ynghylch y cymysgedd o gyllid a rennir rhwng y 10 Awdurdod Lleol a rôl Rhondda Cynon Taf (RCT) fel yr awdurdod arweiniol. Cwestiynodd pam na fu unrhyw graffu ers penderfyniad y Cabinet ym mis Mehefin a pham nad oedd yr un o gadeiryddion y Pwyllgorau craffu wedi'i gyflwyno i'w Pwyllgorau. Tynnodd sylw at bryderon ynghylch y diffyg craffu a thryloywder yn y broses, gan bwysleisio pwysigrwydd y prosiectau hyn ar gyfer y gwasanaethau ansawdd bywyd a ddarperir i drigolion Sir Fynwy. Beirniadodd y Cabinet am weithredu'n unochrog heb graffu priodol a chwestiynodd y diffyg meddwl ymlaen llaw yn y broses.

Eglurodd y Cadeirydd na wnaed penderfyniad y Cabinet ym mis Mehefin; yn hytrach, ychwanegwyd yr eitem at gynllun gwaith y Cabinet ym mis Mehefin a bod y penderfyniad gwirioneddol wedi'i wneud ym mis Chwefror. Yna eglurodd yr Aelod Cabinet fod y dyraniad i awdurdodau unigol yn cael ei wneud gan grŵp o weision sifil yn Whitehall, nid gan RCT. Mynegodd bryder ynghylch y fformiwla a ddefnyddir ar gyfer dyrannu, sy'n rhoi tua 50% yn llai o gyllid i Sir Fynwy nag awdurdodau lleol eraill yng Nghymru. Pwysleisiodd yr angen am well craffu a thryloywder mewn trefniadau yn y dyfodol, yn enwedig pan fydd y cyfrifoldeb yn dychwelyd i lywodraeth Cymru.

Darparodd y Swyddog ffigurau penodol ar gyfer y dyraniad ar gyfer 2025-2026: £2,399,940 yn gyfan gwbl, gyda £1,730,400 mewn referniw a £665,000 mewn cyfalaf. Esboniodd fod gan bob awdurdod unigol ledled y DU ei ddyraniad ei hun, ac yng Nghymru, mae rhanbarth y de-ddwyrain yn cynnwys 10 awdurdod gyda RCT yn arwain.

- Mynegodd Aelod aflonyddwch ynghylch canoli'r broses a cheisiodd eglurhad ynghylch a oedd cymysgedd y cyllid gan Whitehall a Llywodraeth Cymru wedi newid. Gofynnodd a oedd fformiwla debyg ar gyfer elfen Gymreig y cyllid ac a oedd Sir Fynwy ar waelod y pentwr ar gyfer y gronfa hon hefyd.

Eglurodd y Prif Swyddog fod Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU (UK SPF) yn cael ei hariannu'n llwyr gan lywodraeth y DU, heb unrhyw fuddsoddiad gan lywodraeth Cymru. Soniodd, yn y rownd nesaf o gyllid olynol ar ôl Brexit, ei bod yn debygol y bydd gan lywodraeth Cymru rôl fwy yn ei phenderfyniadau gweinyddu a gwariant. Pwysleisiodd fod y cyllid presennol yn dod yn uniongyrchol o San Steffan i'r awdurdodau lleol, heb unrhyw gyfranogiad gan lywodraeth Cymru.

- Cwestiynodd Aelod a oedd y broses graffu ei hun yn cael ei chraffu, gan nodi y dylid trafod eitemau gwariant cyhoeddus mawr yn ystod y craffu. Tynnodd sylw at y mater o dryloywder ac ymgynghori a gofynnodd a oedd symiau mawr o arian cyhoeddus yn cael eu gwario ar frys gan broses benderfynu awdurdodaidd, o bosibl gan un Aelod o'r Cabinet, a holi sut i newid hyn.

Cydnabu'r Aelod Cabinet nad yw'r broses fel y dylai fod, gan nodi problemau gyda brys a diffyg tryloywder. Esboniodd fod gwneud penderfyniadau yn cael ei wneud gan fwrdd, nid gan Aelod unigol o'r Cabinet, a bod atebolrwydd lleol y bwrdd yn wael oherwydd y trefniadau a osodwyd gan lywodraeth y DU. Pwysleisiodd yr angen am ddadl frys yng Nghymru i wella'r trefniadau hyn. Eglurodd y Prif Swyddog nad yw'r gwaith wedi'i wneud gan un Aelod etholedig ond trwy broses fwrdd briodol sy'n cynnwys ystod eang o sefydliadau gwasanaeth cyhoeddus. Tynnodd sylw at y ffaith bod y penderfyniad wedi'i wneud i gyfarfod Cabinet llawn i sicrhau tryloywder.

Ailadroddodd y Cadeirydd mai cyfrifoldeb cyfunol yr Aelodau yw awgrymu pethau ar gyfer y rhaglen waith ymlaen llaw. Gellid ystyried awgrym am gyfarfodydd craffu amlach maes o law.

- Gofynnodd Aelod sut y penderfynwyd mai RhCT ddylai fod yr awdurdod arweiniol yn yr ardal.

Esboniodd y Swyddog fod y penderfyniad i Rhondda Cynon Taf (RhCT) fod yn awdurdod arweiniol wedi'i wneud yn ôl pob tebyg trwy alwad allan ar draws awdurdodau, yn ôl pob tebyg ar lefel y prif weithredwr, a chytunwyd y byddai RCT yn cymryd yr awenau.

- Pwysleisiodd Aelod yr angen i ystyried effaith penderfyniad y Cabinet ar weithwyr, gan y gallai rhai prosiectau naill ai ddod i ben neu symud ymlaen. Tynnodd sylw at bwysigrwydd atebolrwydd a'r angen i awdurdodau lleol gael rôl ehangach wrth graffu ar brosiectau'n ysturlon. Pwysleisiodd hefyd yr angen i ystyried y gweithwyr yr effeithir arnynt gan y penderfyniadau hyn.
- Pwysleisiodd Aelod y dylai galwadau i mewn fynd i'r afael â pha un a wnaeth y Cabinet weithredu er budd gorau dinasyddion Sir Fynwy. Nododd na chodwyd unrhyw bryderon gan arweinwyr grwpiau'r gwrthbleidiau yn ystod trafodaethau 2022 ar y Gronfa Ffyniant Gyffredin a chyfarfod Cabinet mis Chwefror 2025. Awgrymodd nad yw llawer o'r drafodaeth gyfredol yn berthnasol i'r galwad i mewn, gan ei bod yn ceisio craffu ar endidau y tu hwnt i reolaeth y Pwyllgor, fel y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a San Steffan. Mynegodd hefyd awydd i weld y prosiect Gyda'n Gilydd yn parhau'n gynaliadwy ac awgrymodd symud y drafodaeth i bwyllgorau craffu eraill ar gyfer archwiliad mwy priodol.
- Gofynnodd Aelod a oedd y prosiectau a ariannwyd y llynedd yn ymwybodol y gallai'r cronfeydd ddod i ben ddiwedd mis Mawrth ac a oedd ganddynt gynlluniau ymadael ar waith ar gyfer senario o'r fath. Pwysleisiodd bwysigrwydd ystyried yr effaith ar weithwyr Cyngor Sir Caerffili a fyddai mewn limbo pe bai'r Pwyllgor yn penderfynu anfon y penderfyniad yn ôl i'r Cabinet neu i'r Cyngor llawn. Anogodd y Pwyllgor i fyfyrion ofalus ar eu penderfyniad, gan ystyried yr effeithiau posibl ar ddiogelwch swyddi gweithwyr.

Cadarnhaodd y Swyddog fod pob prosiect a ariannwyd y llynedd yn gwbl ymwybodol o'r amserlenni ariannu ac fe'u hanogwyd i gael cynlluniau ymadael ar waith oherwydd natur gyfyngedig amser y cyllid.

- Mynegodd Aelod werthfawrogiad am yr esboniad a ddarparwyd gan yr Aelod Cabinet ynghylch y broses a'r heriau a wynebier oherwydd yr amserlenni tynn. Mynegodd ei anfodlonrwydd â'r broses bresennol, gan dynnu sylw at y swm sylweddol o arian dan sylw a'r angen am degwch wrth ddyrannu arian o fewn cymunedau yng Nghymru.

Cwestiynodd y ceisiadau a'r achosion busnes ar gyfer y prosiectau, gan awgrymu nad oedd rhai ohonynt o bosibl yn bodloni'r meini prawf angenrheidiol ac y gallai prosiectau gwell fod wedi'u hanwybyddu. Pwysleisiodd bwysigrwydd tryloywder a'r cyfiawnhad dros y galw i mewn, gan ddatgan ei bod yn angenrheidiol sicrhau craffu priodol ac i fynd i'r afael ag unrhyw broblemau posibl gyda'r broses ddyrannu.

- Nododd y Cadeirydd fod y rhesymau dros alw i mewn yn cyfeirio at "ddim asesiad amlwg o wireddu manteision fel y'u diffinnir yn y cynnig prosiect cychwynnol a lle mae prosiectau o fewn eu cylch bywyd" a gofynnodd am sylw.

Cadarnhaodd yr Aelod Cabinet y gofynnwyd i'r prosiectau gyflwyno achosion busnes ym mis Rhagfyr, a oedd yn cynnwys gwybodaeth am effaith gwahanol lefelau o gyllid. Mae'r Bartneriaeth Pobl a Lle yn ystyried yr effaith o ran cyflawni'r prosiectau presennol, eu proffil ariannol a'u perfformiad, ond cydnabu y gallai Papur y Cabinet fod wedi adlewyrchu'r ystyriaeth honno'n fwy llawn.

- Cwestiynodd yr Aelodau a ddylai'r Pwyllgor fynd i sesiwn gaeedig i drafod gwybodaeth eithriedig. Yn dilyn egwyl fer i ystyried yr opsiynau, cynghorodd y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr Dros Dro yn erbyn symud i sesiwn gaeedig, gan ddatgan na fyddai'n briodol o ystyried natur y galwad i mewn, sy'n canolbwyntio ar dryloywder a chraffu. Soniodd hefyd y byddai'n crwydro y tu allan i gwmpas y galwad i mewn ei hun.
- Gofynnodd Aelod a yw chwe Aelod o fwrdd y bartneriaeth yn weithwyr Cyngor Sir Fynwy ac a oedd ganddynt wybodaeth gyflawn neu anghywir am bob prosiect. Cwestiynodd pam roedd arian trigolion Sir Fynwy yn cael ei anfon allan o'r sir i Hartpury pan fo cyfleusterau hyfforddi ffermwyr ym Mrynbuga. Holiodd am y defnydd o asesiadau effaith integredig, yn benodol os ydynt yn asesu effaith prosiectau sy'n dod i ben a'u manteision cylch oes.

Esboniodd yr Aelod Cabinet fod y broses yn caniatáu i sefydliadau y tu allan i Sir Fynwy wneud cais am ddarparu gwasanaethau o fewn y Sir. Y maen prawf pwysig yw bod y gwasanaeth o fudd i drigolion Sir Fynwy, waeth beth fo lleoliad y darparwr. Eglurodd y Swyddog fod gan Fwrdd Partneriaeth Pobl a Lle dri chynrychiolydd o'r MCC, nid chwech. Mae mynychwyr eraill yng nghyfarfodydd y bwrdd yn cefnogi gyda chofnodion a phapurau ond nid ydynt yn cymryd rhan mewn gwneud penderfyniadau. Esboniodd fod yr asesiad effaith integredig (AIA) wedi'i ysgrifennu o amgylch y prosiectau sy'n cael eu datblygu yn y cynllun buddsoddi lleol drafft. Mae'r bwrdd partneriaeth yn adolygu effaith prosiectau cyfredol ar gymunedau, busnesau a phobl yn Sir Fynwy yn rheolaidd. Cydnabu'r cwestiynu ynghylch yr effaith ar brosiectau nad ydynt yn parhau a soniodd fod yr IIA wedi'i ddiwygio ers y penderfyniad ar Gweithio Gyda'n Gilydd. Mae'r IIA a'r cynllun buddsoddi lleol wedi'u diweddarau yn adlewyrchu'r toriadau cyllid sylweddol ac yn canolbwyntio ar y prosiectau sydd wedi sicrhau cyllid.

- Pwysleisiodd Aelod y dylai'r AEI asesu effaith prosiectau sy'n parhau a phrosiectau sydd wedi dod i ben. Awgrymodd y byddai hyd yn oed llinell yn yr AEI yn cydnabod yr effaith ar brosiectau sydd wedi dod i ben ac yn sôn am unrhyw fesurau lliniaru yn ddefnyddiol.
- Cwestiynodd Aelod y broses o ddyfarnu arian i sefydliad yn Lloegr (Coleg Hartpury) ac a fyddai darparwr lleol o Sir Fynwy wedi cael cyfle i wneud cais o ystyried yr amserlen ymgeisio fer. Mynegodd bryderon ynghylch tegwch a thryloywder y broses a cheisiodd eglurhad ynghylch a roddwyd cyfle teg i ddarparwyr lleol wneud cais am yr arian.

Esboniodd yr Aelod Cabinet mai'r tro diwethaf i sefydliadau gael eu gwahodd i dendro am ddarparu gwasanaethau oedd yn 2022, a Choleg Hartpury oedd yr unig sefydliad a gynigiodd ddarparu cefnogaeth fusnes i fusnesau ffermio yn Sir Fynwy. Roedd y penderfyniad i barhau i ariannu Coleg Hartpury yn seiliedig ar yr asesiad cadarnhaol o'u gwasanaeth. Cydnabu pe bai mwy o amser wedi bod ar gyfer proses dendro agored, efallai y byddai darparwyr eraill wedi cael y cyfle i dendro. Pwysleisiodd bwysigrwydd sicrhau bod prosesau yn y dyfodol yn caniatáu digon o amser ar gyfer tendro agored ac ystyried pob darparwr posibl.

Casgliad y Cadeirydd:

Nododd y Cadeirydd y consensws ymhlith Aelodau'r Pwyllgor, gan gydnabod, er bod pryderon ynghylch proses y Gronfa Ffyniant a Rennir, nad yw'r broses ei hun o fewn rheolaeth yr Awdurdod Lleol. Gellid archwilio'r broses ymhellach drwy graffu ar y cyd gan y Pwyllgorau Craffu Pobl a Pherfformiad a Throsolwg.

Dywedodd Cynghorodd y Cadeirydd wrth y Pwyllgor fod ganddynt dri opsiwn ar gael iddynt, sef:

1. Derbyn y penderfyniad
 2. Cyfeirio'r penderfyniad at yr Aelod Cabinet i'w ailystyried (gyda rhesymau)
 3. Cyfeirio'r penderfyniad at y Cyngor llawn
- . Gofynnodd y Pwyllgor am bleidlais gofnodedig ar yr opsiynau uchod. Yn dilyn y bleidlais gofnodedig, cytunodd y Pwyllgor yn unfrydol i dderbyn penderfyniad yr Aelod Cabinet.

Cadarnhau dyddiad y cyfarfod nesaf fel 2 Ebrill 2025.

The meeting ended at **12.05 pm**